




Butterfly Conservation Wales
Gwarchod Glöynnod Byw Cymru

Saving butterflies, moths and our environment Yn achub glöynnod byw, gwyfynod a'n hamgylchedd ni

Creu Safleoedd er lles Glöynnod Byw



Creu a rheoli glaswelltiroedd prydferth ar safleoedd datblygu er lles glöynnod byw, gwyfynod a rhywogaethau gwyllt eraill

Glesyn Bach, un glöyn byw ymhlith 30 o rywogaethau sy'n gallu cyflym gytrefu ardaloedd newydd lle mae hadau planhigion priodol wedi cael eu hau i sicrhau neithdar, a chynefin a bwyd addas i'w lindys



KEITH WARMINGTON

STEPHEN BROWN



Ers i Ffordd Liniaru Weymouth yr A354 agor yn 2011, mae glöynnod byw o 30 o rywogaethau gwahanol wedi cael eu cofnodi ar y llethrau glaswelltir sialcog a gafodd eu creu wrth ymyl y ffordd. Dyna ychydig mwy na hanner cyfanswm y rhywogaethau brodorol sydd ar ynys Prydain mewn gwta wyth blynedd.

Creu Safleoedd er lles Glöynnod Byw

Mae'n bwysig inni ddylunio'r man lle rydym yn byw ac yn gweithio gan gadw golwg ar ei wneud yn garedicach i fywyd natur. Mae dau draean o rywogaethau glöynnod byw a gwyfynod gwledydd Prydain yn dirywio, ac mae blerdfw trefol yn prysuro eu diflaniad. Ond nid fel hyn y mae'n rhaid i bethau fod. Dylai ein mannau gwyrdd gael eu cynllunio a'u rheoli gyda'r nod o helpu bywyd gwyllt i ddychwelyd a ffynnu ar drothwy ein drws. Mae glöynnod byw a gwyfynod yn rhoi inni arwydd a yw'r amgylchedd yn iach neu beidio, ac yn chwarae rôl hanfodol yn yr ecosystem naturiol fel peillwyr ac fel bywyd i rywogaethau eraill.

Sut i greu glaswelltiroedd a fydd yn llesol i fywyd gwyllt

Ein glaswelltiroedd gorau ym myd natur o safbwynt blodau gwyllt yw'r rhai sy'n ymfurfio ar y priddoedd lleiaf ffrwythlon. Trwy gynllunio ein tirweddau o waith dyn mewn ffordd debyg, gan sicrhau bod y pridd yn brin o faetholion neu'n cynnwys mwnau sylfaenol noeth megis sialc wedi'i falu, fe allwn ni ail-greu'r amgylchiadau hyn. Os gwnawn ni felly, gall y canlyniadau fod yn syfrdanol, gan wella ansawdd ein bywydau ni a chreu cynefinoedd sy'n llawn blodau gwyllt a thrychfilod. Trwy wasgaru hadau Bacwn ac

y (Pys Ceirw) ar bridd noeth, gallwn greu carped o flodau melyn yn gyflym, gan ddarparu ffynhonnell neithdar dda ar gyfer peillwyr, a phlanhigion bywyd i lindys y Glesyn Cyffredin.

Lleihau ffrwythlondeb y pridd ar laswelltir amwynder sydd mewn bodolaeth

Mae torri-a-chasglu gwair yn ffordd seml o leihau ffrwythlondeb y pridd ar laswelltiroedd amwynder. Yn ystod y tymor tyfu, mae planhigion yn troi'r maetholion sydd yn y pridd yn ddail, blodau a hadau. Os tynnir y deunydd byw o'r glaswellt, rhwystrir y maetholion hyn rhag dychwelyd i'r pridd. Gellir torri-a-chasglu hyd at bedair gwaith y flwyddyn yn y

Glesyn Cyffredin.
KEITH WARMINGTON



GILES NICHOLSON

ddwy flynedd gyntaf, gan leihau hyn i ddwywaith y flwyddyn yn y drydedd flwyddyn, ym Mawrth/Ebrill ac yn Awst/Medi. Mae hyn yn rhoi cyfle i flodau gwyllt flodeuo a mynd i had. Mae torri-a-chasglu yn lleihau tyfiant y glaswellt yn y lle cyntaf: gan fod llai ohono i'w dorri, mae'r cynnal a chadw'n costio llai. Mae'n hybu dychweliad y blodau gwyllt yn ogystal.

Beth sy'n bod ar laswelltiroedd amwynder?

Mae'r rhan fwyaf o gynlluniau datblygu'n pennu gosod haen uchaf o bridd o ansawdd da a hau hadau glaswellt arno. Mae'r glaswellt yn tyfu'n dda, yn enwedig Rhygwel Parhaol, ond ychydig o le a adewir ganddo i flodau gwyllt, na allant gystadlu ag ef. O ganlyniad, prin y mae glaswelltiroedd amwynder o werth heddiw i rywogaethau gwyllt. Efallai y bydd mannau amwynder yn edrych yn ddeniadol am gyfnod ar ôl i'r gwaith datblygu gael ei gwblhau, ond mae angen torri'r gwair yn rheolaidd, mae golwg flêr ar y tyweirch pydredig, ac mae rhaid talu'r gost o'u cynnal a'u cadw am byth wedyn.

Sut gallwch chi helpu

Mae Gwarchod Glöynod Byw yn argemell y dylai pob datblygiad gynnwys ardaloedd lle defnyddir priddoedd isel eu ffrwythlondeb nwu fwnau noeth, er mwyn creu glaswelltiroedd llawn blodau gwyllt sy'n llesol i löynnod byw, gwyfynod a pheillwyr eraill, rhai y gall pobl eu mwynhau yn ogystal. Rhaglen Gwarchod Glöynod Byw, 'Creu Safleoedd er lles Glöynnod Byw', yw'r un gyntaf o'i math sydd â'r nod o gynghori sut y gellir cynllunio a rheoli ein hamgylchedd adeiledig yn well i gynorthwyo bywyd gwyllt, fel y gallwn ni a chenedlaethau'r dyfodol fwynhau byd natur yn y mannau lle rydym yn byw ac yn gweithio.



PHIL STERLING

I ddysgu rhagor am Creu Safleoedd er lles Glöynnod Byw, cysylltwch â:

Dr Phil Sterling psterling@butterfly-conservation.org

neu ewch www.butterfly-conservation.org/buildingsites

neu Butterfly Conservation, Manor Yard, East Lulworth, Wareham, Dorset BH20 5QP

Dilynwch ni:

[facebook.com/savebutterflies](https://www.facebook.com/savebutterflies) twitter.com/savebutterflies [instagram.com/savebutterflies](https://www.instagram.com/savebutterflies)



Saving butterflies, moths and our environment Yn achub glöynnod byw, gwyfynod a'n hamgylchedd ni

Butterfly Conservation Wales Gwarchod Glöynnod Byw Cymru

Uchod: Llifglawdd lle mae hadau blo-dau gwyllt brodorol wedi cael eu hau ar bridd tywodlyd isel ei ffrwythlondeb.

Gwarchod Glöynnod Byw

Gwarchod Glöynnod Byw yw'r elusen sy'n gweithio i sicrhau dyfodol i löynnod byw a gwyfynod ledled gwledydd Prydain. Mae glöynnod byw a gwyfynod yn elfennau pwysig yn yr ecosystem. Maent yn brydferth ac yn ysbrydoledig, ac mae pobl yn mwynhau eu gweld yn eu gerddi ac yn ein hamgylchedd trefol. Maent yn sensitif i newid, ac mae eu tynged yn ein helpu i asesu iechyd ein hamgylchedd. Mae Gwarchod Glöynnod Byw yn gwella tirweddau er lles glöynnod byw a gwyfynod, gan greu gwell amgylchedd inni i gyd.

Cwmni cyfyngedig gan warant, wedi'i gofrestru yn Lloegr (2206468). Swyddfa Gofrestredig: Manor Yard, East Lulworth, Wareham, Dorset, BH20 5QP. Elusen wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (254937) ac yn yr Alban (SC039268). Rhif TAW GB 991 2771 89. Mae Gwarchod Glöynnod Byw yn ddiolchgar i Ymddiriedolaeth Patsy Wood am gyllido Rhaglen Creu Safleoedd er lles Glöynnod Byw.

